# Fi

**Dyma fy llygaid, fy llygaid, fy llygaid,**
**Dyma fy nghlustiau, fy nghlustiau i,**
**Dyma fy ngheg i, fy ngheg i, fy ngheg i,**
**Dyma fy nhrwyn, cana gyda fi.**

**Dyma fy ngwallt i, fy ngwallt i, fy ngwallt i,**
**Dyma fy ngwddw, a dyma fy mhen,**
**Dyma fy ngên i, fy ngên i, fy ngên i,**
**Dyma fy mochau a fy nhalcen.**

**Dyma fy nwylo, fy nwylo, fy nwylo,**
**Dyma fy mysedd, mae gen i ddeg,**
**Dyma fy mreichiau, fy mreichiau, fy mreichiau,**
**Dyma fy nghoesau i mi redeg!**

**Dyma fy nhraed i, fy nhraed i, fy nhraed i,**
**Dyma fy modiau sy'n bitw bach,**
**Dyma fy nghorff i, fy nghorff i, fy nghorff i,**
**Dyma fy nghorff, dwi'n ei gadw'n iach.**

© 2024 S4C